



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG45678

Cymru ddi-fwg: Ein Strategaeth Rheoli Tybaco hirdymor i Gymru a'r Cynllun Cyflawni tuag at Gymru ddi- fwg 2022 i 2024

Y camau nesaf yn dilyn ymgynghori ac ymgysylltu

Gorffennaf 2022

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

Cyflwyniad

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymarfer ymgynghori rhwng 8 Tachwedd 2021 a 31 Mawrth 2022 i gasglu barn ar y strategaeth hirdymor ar reoli tybaco, *Cymru Ddi-fwg* ('y strategaeth'), a'r cynllun cyflawni, *Tuag at Gymru Ddi-fwg: Cynllun Cyflawni ar reoli tybaco 2022-2024* ('y cynllun cyflawni'). Yn ogystal â'r ymgynghoriad, bu Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag unigolion a rhanddeiliaid drwy grwpiau ffocws a chynhadledd, a chomisiynodd adolygiad o'r strategaeth flaenorol (y *Cynllun Gweithredu Rheoli Tybaco*) a gyhoeddwyd yn 2012, yn ogystal â'i gynlluniau cyflawni. Mae canlyniad yr ymgynghoriad, y gwaith ymgysylltu a'r ymchwil i'w weld yn y dogfennau canlynol:

1. Adolygiad o'r Cynllun Gweithredu Rheoli Tybaco a'r Cynlluniau Cyflawni ar gyfer Cymru
2. Strategaeth Rheoli Tybaco i Gymru a'r Ymgynghoriad ar y Cynllun Cyflawni – Crynodeb o'r ymatebion
3. Adroddiad ar Ddigwyddiad Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Cymru Ddi-fwg
4. Adroddiad Ymgysylltu Grŵp Blaenoriaeth Cymru Ddi-fwg

Mae'r dogfennau hyn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn:

<https://llyw.cymru/ysmygu>

Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o'r materion a godwyd yn y pedwar adroddiad uchod, ac mae wedi'i threfnu i adlewyrchu strwythur y cwestiynau a ofynnwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Mae hefyd yn darparu ymateb Llywodraeth Cymru i'r materion hyn ac yn nodi sut mae dogfennau'r strategaeth a'r cynllun cyflawni wedi'u diwygio.

Crynodeb, ymateb a diwygiadau

Cwestiwn 1

A ydych yn cytuno â'n uchelgais i gyflawni Cymru ddi-fwg erbyn 2030?

Crynodeb o'r materion a godwyd mewn ymateb i gwestiwn 1

Roedd cefnogaeth gyffredinol i sefydlu'r uchelgais ddi-fwg, yn enwedig gan sefydliadau. Atebodd bron pob un a oedd yn bresennol (98%) yn ein digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid eu bod yn cytuno â'r uchelgais. Nododd llawer y manteision iechyd i Gymru, nid yn unig i unigolion ond o ran lleihau anghydraddoldebau iechyd a sicrhau arbedion sylweddol i'r GIG hefyd. Yn ystod yr ymgynghoriad, teimlai llawer o'r unigolion a ymatebodd fod yr uchelgais a'r cynigion yn gyffredinol yn dileu rhyddid unigolyn i ddewis, a nodwyd fod y Llywodraeth yn rheoli hawliau pobl i wneud eu penderfyniad eu hunain mewn perthynas ag smygu.

Roedd llawer o randdeiliaid yn cydnabod bod lleihau cyffredinrwydd smygu i 5% yng Nghymru erbyn 2030 yn uchelgeisiol iawn, ac roedd rhai yn cwestiynu a fyddai modd cyflawni'r uchelgais. Gwnaed pwynt hefyd y gall gosod targedau sy'n rhy uchelgeisiol arwain at effaith negyddol. Ar y cyfan, fodd bynnag, roedd rhanddeiliaid yn cytuno ei bod yn iawn bod yn uchelgeisiol i fynd i'r afael ag smygu ac mai 2030 yw'r flwyddyn darged gywir. Gwnaed ymholiadau ynghylch ystyr 'di-fwg' ac a yw hyn yn golygu di-

dybaco neu a oes bwriad i gynnwys pob cynnyrch sy'n cynnwys nicotin (er enghraifft, e-sigaréts). Codwyd rhai pwyntiau mewn perthynas â thargedau interim sydd wedi'u hystyried o dan gwestiwn 3.

Ymateb Llywodraeth Cymru a diwygiadau a wnaed i'r strategaeth a'r cynllun cyflawni

Mae'n gadarnhaol iawn bod llawer o'r rhai a rannodd eu barn gyda ni ar y pwynt hwn yn teimlo mai sefydlu'r uchelgais ddi-fwg i Gymru oedd y peth iawn i'w wneud ac yn cytuno â tharged 2030. Felly, rydym yn bwriadu cadw'r uchelgais ddi-fwg ar 5% o ran cyffredinwydd smygu erbyn 2030 gan ei fod yn sefydlu bwriad clir i gymryd camau i leihau smygu yng Nghymru. Rydym yn ddiolchgar hefyd i'r rhai a rannodd eu gwrthwynebiadau i'r uchelgais a'r cynigion yn gyffredinol gyda ni. Er y byddwn yn symud ymlaen â'r bwriad i weithredu'r camau gweithredu i gyflawni'r uchelgais hon, bydd y pwyntiau a wnaed yn y gwrthwynebiadau yn ein helpu i ddeall rhai o'r rhwystrau, yn enwedig o ran canfyddiad y cyhoedd o'n huchelgais ddi-fwg. Bydd hyn yn arbennig o bwysig yn y gwaith cyfathrebu cyhoeddus a wnawn.

Mae'r strategaeth a'r cynllun cyflawni wedi'u diwygio:

- I'w gwneud yn glir bod di-fwg yn golygu Cymru ddi-dybaco.

Cwestiwn 2

Mae'r strategaeth yn pennu'r tair thema ar gyfer ein gwaith wrth inni fwrw ymlaen â'r newidiadau mewn smygu yng Nghymru:

- **Thema 1: Lleihau anghydraddoldebau**
- **Thema 2: Cenedlaethau'r dyfodol**
- **Thema 3: Dull system gyfan ar gyfer Cymru ddi-fwg**

A ydych yn cytuno mai dyma'r themâu cywir i'r strategaeth ganolbwyntio arnynt?

Crynodeb o'r materion a godwyd mewn ymateb i gwestiwn 2

Cafwyd cefnogaeth yn ystod yr ymgynghoriad a'r gwaith ymgysylltu mai'r tair thema yw'r rhai cywir i'r strategaeth ganolbwyntio arnynt, gyda llawer yn dweud bod y themâu'n gydgyssylltiedig ac yn cefnogi ei gilydd. Ailadroddodd llawer o'r rhai a atebodd na i'r cwestiwn hwn y sylwadau a wnaed mewn ymateb i gwestiwn 1 ynghylch dileu'r rhyddid i ddewis.

Thema 1: Lleihau Anghydraddoldebau

Gwnaeth ymatebwyr a wnaeth sylwadau ar y thema hon bwyntiau mewn perthynas â'r rôl sydd gan anghydraddoldebau a gwahaniaethau o ran sbarduno'r defnydd o dybaco a'r ffaith bod angen blaenoriaethu gweithredu mewn poblogaethau â lefelau uchel o gyffredinwydd smygu. Gwnaed rhai awgrymiadau hefyd ynghylch cysylltu dyraniadau cyllid â lefelau amddifadedd. Tynnwyd sylw hefyd at yr angen i gysylltu ymyriadau ar smygu â strategaethau ehangach y llywodraeth ar iechyd y cyhoedd, tai a thlodi plant er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r rhesymau sylfaenol pam mae cyfran uwch o'r rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn dechrau smygu yn y lle cyntaf. Awgrymodd rhai fod angen strategaeth drawslywodraethol genedlaethol sy'n cydnabod achosion cymhleth ac eang anghydraddoldebau iechyd.

Galwodd rhai ymatebwyr am fynediad cryfach a gwell at wasanaethau rhoi'r gorau i smygu hefyd, yn enwedig y rhai sydd wedi'u lleoli yn y gymuned mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol neu grwpiau blaenoriaeth eraill.

Thema 2: Cenedlaethau'r Dyfodol

Roedd llawer o'r rhai a wnaeth sylwadau yn yr ymgynghoriad yn cytuno y dylid cynnwys cenedlaethau'r dyfodol fel thema. Cafwyd cefnogaeth gryf i hyn yn ystod ein digwyddiad ymgysylltu hefyd. Roedd ymatebwyr yn falch o weld ei fod wedi'i gynnwys yn y strategaeth, gyda llawer yn pwysleisio pwysigrwydd ymyrraeth gynnar a phwyslais cryf ar fesurau atal mewn perthynas â thybaco i ddiogelu cenedlaethau'r dyfodol. Codwyd pwysigrwydd newid canfyddiadau plant a phobl ifanc ynghylch smygu hefyd fel nad yw'r genhedlaeth nesaf yn tyfu i fyny gan feddwl bod smygu'n ymddygiad deniadol neu 'cŵl'. Yn gysylltiedig â hyn, gwnaed pwyntiau ar bwysigrwydd cyfathrebu'n effeithiol â phlant a phobl ifanc fel eu bod yn cael gwell gwybodaeth am effaith smygu drwy ddulliau cyfathrebu a negeseuon priodol.

Cafwyd llawer o sylwadau hefyd am smygu ymhlith mamau. Nodwyd cyfraddau cyffredinrwydd smygu ymhlith pobl ifanc 16–24 oed a thynnwyd sylw at smygu yn ystod beichiogrwydd fel mater y mae angen mynd i'r afael ag ef o dan y thema hon. Roedd cynyddu cyfran beichiogrwydd di-fwg yn flaenoriaeth glir i lawer o ymatebwyr, gan gynnwys yr angen i ystyried y cyfnod cyn-beichiogi, yn ogystal â mynd i'r afael â chanlyniadau andwyol uniongyrchol smygu ar y baban heb ei eni a'r plentyn ifanc. Codwyd y dylanwadau ehangach ar smygu ymhlith mamau, gan gynnwys cymorth i deuluoedd a smygu ymhlith partneriaid. Awgrymwyd hefyd bod angen cysylltu â strategaethau sy'n ceisio lleihau beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau ac ymyriadau rhagweithiol gyda phobl ifanc mewn lleoliadau addysg lle mae cyffredinrwydd smygu yn uwch.

Codwyd cysylltiadau â defnyddio e-sigaréts (gan gynnwys argaeledd e-sigaréts nad ydynt yn cynnwys nicotin) a chanabis hefyd yng nghyd-destun y defnydd o dybaco gan bobl ifanc, ac awgrymwyd eu bod yn 'byrth' posibl i smygu a chaethiwed i nicotin. Gwnaed awgrymiadau hefyd y dylid darparu ymyriadau a chymorth wedi'u targedu i helpu pobl ifanc i roi'r gorau i ddefnyddio e-sigaréts a/neu ganabis, yn ogystal â phwysigrwydd cysylltu'r materion hyn â negeseuon gwrth-smygu. Fodd bynnag, tynnodd eraill sylw at bwysigrwydd peidio â chreu rhwystrau i bobl ifanc sy'n defnyddio e-sigaréts fel dull o roi'r gorau i smygu. Roedd galwadau hefyd am orfodi llymach ar werthu tybaco ac e-sigaréts i blant, a chamau pellach i annog plant a phobl ifanc i beidio â defnyddio e-sigaréts.

Thema 3: Dull System Gyfan ar gyfer Cymru Ddi-fwg

Roedd cytundeb â'r thema hon, gyda llawer yn tynnu sylw at y ffaith bod dull system gyfan yn hanfodol fel bod yr holl bartneriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys y cyhoedd, yn tynnu tua'r un cyfeiriad ac yn cydweithio i gyflawni uchelgais y strategaeth. Gwnaed sylwadau hefyd fod angen i'r dull gweithredu fod yn gynhwysfawr a chwmpasu deddfwriaeth, addysg, cyfathrebu, rhoi'r gorau i smygu a rheoleiddio'r diwydiant tybaco. Nodwyd bod angen cysondeb ledled y DU hefyd i gefnogi'r newid mewn agweddau. Credwyd hefyd fod ehangder y partneriaid dan sylw yn hollbwysig, gyda llawer yn dweud bod angen iddo fod yn eang iawn, yn draws-sector ac yn drawslywodraethol a mynd y tu hwnt i'r sefydliadau statudol a thrydydd sector arferol

sy'n ymwneud â rheoli tybaco fel arfer. Roedd galwadau hefyd am i'r gwaith gael ei gydgyssylltu ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, o bosibl dan arweiniad partneriaethau sefydledig presennol megis y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSBs) a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (RPBs). Teimlwyd hefyd fod yr angen i ganolbwyntio ar bontio di-dor rhwng gwasanaethau a arweinir gan ysbytai a gwasanaethau a arweinir gan y gymuned yn bwysig iawn, yn ogystal â'r angen am ddull gweithredu cynaliadwy. Tynnwyd sylw at yr enghraifft o ddarparu'r brechiad COVID-19 fel maes lle digwyddodd arfer da a lle gellid dysgu gwersi.

Roedd rhai ymatebwyr wedi awgrymu gwelliannau i'r ffordd y caiff y gwasanaeth *Helpa Fi i Stopio* (HMQ) ei ddarparu fel ei fod yn dod yn fwy di-dor ac integredig. Yr enghraifft a nodwyd oedd Model Ottawa ar gyfer Rhoi'r Gorau i Smygu gan y teimlwyd bod hwn yn ddull effeithiol sy'n dwyn gofal sylfaenol, eilaidd a thrydyddol ynghyd i fynd i'r afael â smygu. Mae'r pwyntiau hyn wedi'u hystyried o dan gwestiynau 6, 7 ac 8 (Maes Gweithredu Blaenoriaeth 2 – Gwelliant Parhaus).

Ymateb Llywodraeth Cymru a diwygiadau a wnaed i'r strategaeth a'r cynllun cyflawni

Yn ystod ein hymgyngoriad a'n gwaith ymgysylltu, cafodd y tair thema yn y strategaeth eu cefnogi'n eang a'u hystyried fel y meysydd cywir i'r strategaeth ganolbwyntio arnynt. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd mae smygu'n un o'r prif bethau sy'n eu hachosi, felly rydym yn croesawu'r ffaith bod hyn yn cael ei gydnabod a'i gefnogi. Gan fod caethiwed i smygu'n dechrau yn ystod y glasged fel arfer, bwriad thema cenedlaethau'r dyfodol yw sicrhau bod yr holl gamau gweithredu sy'n deillio o'r strategaeth ym mhob un o'r cynlluniau cyflawni yn canolbwyntio'n llwyr ar hyn fel ein bod yn gweithredu mewn meysydd sydd nid yn unig yn atal ac yn lleihau nifer y bobl ifanc sy'n smygu, ond hefyd yn cefnogi lles pob person ifanc yng Nghymru. Mae rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant yng Nghymru yn cynnwys sicrhau dechrau di-fwg, felly mae mynd i'r afael â smygu ymhlith mamau yn faes blaenoriaeth gweinidogol ac yn un (ynghyd â rhoi'r gorau i smygu) y mae gweinidogion yn disgwyl i fyrrdau iechyd fynd i'r afael ag ef gyda chamau pendant a mesuradwy.

Bydd y sylwadau a dderbyniwyd ar thema 3 (y dull systemau cyfan) yn cael eu hystyried yn y ffordd rydym yn meithrin dull cynhwysol o fwrw ymlaen â'r strategaeth, a byddwn yn ystyried hefyd sut y gallwn gynnwys strwythurau fel PSBs ac RPBs yn y gwaith gan ein bod yn cytuno bod hyn yn hanfodol i gefnogi'r newid yn y system sydd ei angen ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Cytunir bod dysgu o'r dulliau a ddefnyddir mewn meysydd eraill megis *Pwysau Iach: Cymru Iach* a system Frechu COVID yn hanfodol wrth i ni symud tuag at weithredu'r strategaeth a'r cynllun cyflawni.

Mae'r strategaeth a'r cynllun cyflawni wedi'u diwygio:

- I'w gwneud yn glir bod y cyfnod cyn-beichiogi wedi'i gynnwys yn ein dull o fynd i'r afael â smygu ymhlith mamau.
- I adlewyrchu dylanwad y defnydd o ganabis ac e-sigaréts ar y defnydd o dybaco ymhlith pobl ifanc.
- I dynnu sylw at bwysigrwydd strwythurau megis PSBs ac RPBs yn y gwaith i gefnogi'r newid yn y system sydd ei angen ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

- I sicrhau ei bod yn glir y byddwn yn ceisio cymhwyso'r hyn a ddysgwyd o'r dulliau a ddefnyddir mewn meysydd eraill megis *Pwysau Iach: Cymru Iach* a system Frechu COVID wrth i ni symud tuag at weithredu'r strategaeth a'r cynllun cyflawni.

Cwestiwn 3

Er inni nodi mai ein huchelgais yw cyflawni Cymru ddi-fwg erbyn 2030, nid ydym wedi pennu targedau cerrig milltir yn ymwneud â chyffredinrwydd smygu yn ein strategaeth nac ychwaith wedi gosod cyfradd cyffredinrwydd smygu y byddwn yn anelu at ei chyflawni erbyn diwedd y cynllun cyflawni cyntaf. Fodd bynnag, ein nod yw lleihau cyffredinrwydd smygu yn sylweddol dros yr 8 mlynedd nesaf. Byddwn yn defnyddio'r ffynonellau data canlynol i fonitro cyfraddau smygu yng Nghymru:

- **Arolwg Cenedlaethol Cymru sy'n darparu data'n ymwneud â smygu yng Nghymru ynghyd â chyfradd cyffredinrwydd smygu.**
- **Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr yng Nghymru mewn perthynas â smygu a'r defnydd o e-sigaréts ymhlith pobl ifanc 11-16 oed.**
- **Ystadegau mamolaeth a genedigaethau ar gyfer cyfraddau smygu ymhlith mamau.**

Ydych chi'n teimlo mai dyma'r dull gweithredu cywir?

Crynodeb o'r materion a godwyd mewn ymateb i gwestiwn 3

Dywedodd bron i 60% o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn ystod yr ymgynghoriad eu bod yn cefnogi'r dull a gynigiwyd gennym neu'n ei gefnogi'n rhannol. Roedd sylwadau'n cynnwys bod y ffynonellau data hyn yn gywir, yn fawr, yn gadarn ac yn gyfoes, gan ddarparu tystiolaeth dda ar lefel y boblogaeth ar gynydd. Tynnwyd sylw at yr angen am ofal wrth ddehongli'r gostyngiad diweddar yng nghyffredinrwydd smygu (yn Arolwg Cenedlaethol Cymru), yn ogystal â'r ffaith y gallai'r pandemig COVID-19 fod wedi dylanwadu ar ddull yr arolwg.

Fodd bynnag, nododd rhai ymatebwyr broblemau, yn enwedig o ran defnyddio data Arolwg Cenedlaethol Cymru at ein dibenion, gan gynnwys ei fod yn hunan-adroddedig, a chwestiynwyd a yw'n adlewyrchiad cywir o gyfraddau smygu yng Nghymru. Gwnaed sylwadau hefyd ynghylch a yw maint sampl Arolwg Cenedlaethol Cymru yn ddigonol, yn enwedig ar gyfer holi ar lefel leol, ac a ellir ei ddefnyddio i nodi'r grwpiau blaenoriaeth. Awgrymwyd y dylid cynyddu maint sampl Arolwg Cenedlaethol Cymru gan y byddai hyn yn darparu tueddiadau mwy dibynadwy. Awgrymwyd hefyd nad yw Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cipio rhai poblogaethau megis y rhai heb gyfeiriad sefydlog, y rhai sy'n cael eu cefnogi mewn ysbytai iechyd meddwl ar hyn o bryd, neu mewn carchardai. Cafwyd awgrymiadau hefyd y dylid ychwanegu at y data a gesglir drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru i gasglu'r canlynol:

- smygu a'r defnydd o ganabis
- ymdrechion i roi'r gorau i smygu a'r dulliau a ddefnyddir
- cyffredinrwydd e-sigaréts a'r cymhelliant i'w defnyddio.

Er mai dim ond nifer fach o sylwadau a gafwyd yn ymwneud â'r arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr yng Nghymru, roedd y rhai a wnaeth sylwadau yn croesawu'r defnydd o'r

arolwg ar gyfer casglu data ar smygu ymhlith pobl ifanc. Roedd rhai am i ddata ysgolion cynradd gael ei gasglu hefyd.

Cefnogwyd pwysigrwydd cofnodi'r defnydd o dybaco yn gywir yn yr ystadegau mamolaeth a genedigaethau hefyd, er i rai ymatebwyr nodi problemau gyda hyn, er enghraifft, nad yw'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu fel mater o drefn ar hyn o bryd yn ystod beichiogrwydd cynnar (i lunio data llinell sylfaen) nac ar 36 wythnos. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo bod angen dull cyson a chadarn o gasglu data ac adrodd ar draws yr holl fyrddau iechyd mewn perthynas â smygu ymhlith mamau, sy'n cynnwys statws smygu a ddilysir gan garbon monocsid, yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). Awgrymwyd hefyd y dylid casglu data dilynol i olrhain cynnydd mamau sy'n smygu ar ôl rhoi genedigaeth er mwyn sicrhau bod rhieni'n cael eu cefnogi'n barhaus. Derbyniwyd sylwadau ar ddata mamau o dan gwestiwn 7 hefyd, gydag awgrym ar gyfer safoni'r offer sgrinio ar gyfer pobl feichiog drwy ddefnyddio ymwelwyr iechyd (neu weithwyr iechyd proffesiynol eraill yn y gymuned) ac atgyfeirio i wasanaethau rhoi'r gorau i smygu.

O ran defnyddio targedau, roedd cefnogaeth i bennu nodau penodol (efallai i gyd-fynd â diwedd pob cynllun cyflawni) mewn perthynas â grwpiau poblogaeth (blaenoriaeth) penodol (yn benodol ar gyfer pobl ifanc a phobl feichiog) a allai helpu i gefnogi'r thema o dargedu anghydraddoldebau. Fodd bynnag, ni chafwyd llawer o sylwadau o blaid sefydlu targed carreg filltir interim, cyn 2030. Dywedodd rhai y byddai'n ddefnyddiol iddynt gael diffiniad cliriach o'r hyn yr oedd gostyngiad 'sylweddol' yn ei olygu h.y. a yw'n golygu gostyngiad cyson, neu ostyngiad(au) serth ac yna cyfnodau heb newid. Fodd bynnag, nodwyd bod targedau canolradd yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod y targed terfynol yn cael ei gyflawni – fel arall (fel yr awgrymodd rhai), efallai y bydd y targed terfynol yn cael ei fethu. Roedd rhai yn annog bod yn ofalus oherwydd er y gall targedau fod yn ddefnyddiol i ganolbwyntio ymdrechion ac ysgogi, gallant arwain at esgeuluso ymyriadau pwysig eraill hefyd.

Ymateb Llywodraeth Cymru a diwygiadau a wnaed i'r strategaeth a'r cynllun cyflawni

Gan fod yr ymatebion a gafwyd yn ystod ein proses ymgynghori ac ymgysylltu'n cefnogi ein dull o gasglu data, byddwn yn parhau yn ôl y bwriad i ddefnyddio'r prif ffynonellau data canlynol i fesur y defnydd o dybaco yng Nghymru:

- Arolwg Cenedlaethol Cymru sy'n darparu data'n ymwneud â smygu yng Nghymru ynghyd â chyfradd cyffredinrwydd smygu.
- Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr yng Nghymru mewn perthynas â smygu a'r defnydd o e-sigaréts ymhlith pobl ifanc 11-16 oed.
- Ystadegau mamolaeth a genedigaethau ar gyfer cyfraddau smygu ymhlith mamau.

Mewn perthynas â'r sylwadau a gafwyd ar y ffynonellau data hyn, byddwn yn edrych ar sut i fynd i'r afael â phroblemau o ran maint sampl wrth i gyffredinrwydd smygu leihau a grwpiau y gallem fod yn eu colli (y rhai sy'n ddigartref, pobl mewn carchardai a'r rhai sy'n cael eu cefnogi gan ysbytai iechyd meddwl) gyda thîm Arolwg Cenedlaethol Cymru. Er bod Arolwg Cenedlaethol Cymru yn gynhwysfawr ac yn casglu data ar lawer o wahanol feysydd, efallai y bydd cyfle i ystyried ai dyma'r ffordd gywir o gasglu data arall fel yr awgrymwyd. Mae gwaith ar y gweill i ymestyn yr

arolwg lechyd a Lles Myfyrwyr i ysgolion cynradd i ategu'r gwaith o gasglu data ar ysgolion uwchradd, a chaiff data ar y defnydd o dybaco ei gasglu.

O ran ystadegau mamolaeth a genedigaethau ar gyfer cyfraddau smygu ymhlith mamau, nodwn y materion a godwyd ynghylch y data hwn a byddwn yn edrych ar sut y gallwn wella a chefnogi'r gwaith o gasglu data cadarn am y grŵp hwn. Fel y nodwyd uchod, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ei gwneud yn glir bod mynd i'r afael â smygu ymhlith mamau (yn ogystal â chyflawni targedau rhoi'r gorau i smygu) yn flaenoriaeth weinidogol, ac mae wedi gofyn i fyrdau iechyd sicrhau bod camau gweithredu'n canolbwyntio ar y maes hwn.

Rydym wedi sefydlu ffrwd waith data a monitro tybaco i gynghori grŵp Gweithredu'r Cynllun Cyflawni Rheoli Tybaco (sy'n gyfrifol am gefnogi'r gwaith o ddarparu'r strategaeth a'r cynllun cyflawni) ar y gofynion data i gefnogi'r strategaeth a'r cynllun cyflawni. Bydd y grŵp hwn yn ein helpu i nodi'r ffynonellau data ychwanegol sydd ar gael neu lle mae bylchau, er enghraifft, y rhai a fydd yn ein helpu i ganolbwyntio a monitro ymyriadau ar grwpiau blaenoriaeth. Mewn perthynas â'r sylwadau ar y geiriad 'sylweddol', rydym yn cytuno ac rydym wedi diwygio'r geiriad yn y cynllun cyflawni i fod yn gliriach.

Mewn perthynas â sefydlu targedau canolradd (h.y. rhwng 2022 a 2030), byddwn yn parhau i adolygu'r mater hwn. Ar hyn o bryd, rydym yn teimlo y byddai angen rhagor o ddata i bennu cyffredinrwydd yn gywir yng Nghymru dros y blynyddoedd nesaf, er ein bod yn edrych ar sut y gellir cyflawni hyn gyda'r grŵp ffrwd waith data a monitro tybaco.

Mae'r diwygiadau a wnaed i'r strategaeth a'r cynllun cyflawni yn ymwneud â'r materion hyn wedi'u nodi isod o dan gwestiwn 4.

Cwestiwn 4

A oes unrhyw ffynonellau data eraill y dylid eu defnyddio i fonitro llwyddiant y strategaeth a'r cynllun cyflawni? Os felly, beth ydynt?

Crynodeb o'r materion a godwyd mewn ymateb i gwestiwn 4

Roedd llawer o'r ymatebwyr o blaid cryfhau'r broses o gasglu data ar smygu ac ymgorffori'r wybodaeth yn y dulliau presennol o gasglu data'r GIG mewn gofal sylfaenol (asesiadau a gwasanaethau sgrinio meddygon teulu a gwasanaethau deintyddol) a gofal eilaidd (crybwyllwyd derbyniadau i'r ysbyty, iechyd meddwl a mamolaeth yn benodol). Ystyriwyd bod canfod statws smygu yn rheolaidd, yn gyson ac yn systemig yn hanfodol, a chytunwyd fod data gwasanaethau Helpa Fi i Stopio yn elfen bwysig. Pwyntiau penodol a godwyd mewn perthynas â data mamolaeth oedd yr adroddiadau misol gan ysbytai mamolaeth (marwolaethau newyddenedigol) a gwybodaeth am statws smygu partneriaid.

Darparodd ymatebwyr lawer o ffynonellau data ychwanegol eraill, megis data gwerthiant a'r defnydd o e-sigaréts, data'r Astudiaeth Pecyn Cymorth Smygu, data awdurdodau lleol, arolygon ASH Cymru a YouGov ac, mewn perthynas â thybaco anghyfreithlon yn benodol, arolwg bob dwy flynedd NEMS a data Profi ac Orlhain.

Ymateb Llywodraeth Cymru a diwygiadau a wnaed i'r strategaeth a'r cynllun cyflawni

Rydym yn cytuno ei bod yn hanfodol bod y data ar gael ar bob lefel i gefnogi'r strategaeth, a bydd ein grŵp ffrwd waith data a monitro tybaco yn edrych ar y sylwadau a dderbyniwyd ar ffynonellau data eraill y gellid eu defnyddio.

Credwn fod llawer o fanteision i symud tuag at systemau data llawer mwy integredig mewn perthynas â smygu a chroesawir gwaith Iechyd a Gofal Digidol Cymru a Phorth Clinigol Cymru fel y gall gweithwyr iechyd proffesiynol nodi ysmygwr a chysylltu eu cofnodion yn fwy rhwydd fel y gellir cynorthwyo'r person i roi'r gorau i smygu mewn ffordd sy'n gweddu orau iddynt. Rydym yn cydnabod hefyd bod y data cywir yn hanfodol er mwyn i fyrddau iechyd (yn ogystal ag awdurdodau lleol) sicrhau bod yr wybodaeth ar gael i gyfarwyddo eu gwasanaethau. I ni yn y Llywodraeth, rhaid i'r data allu ein galluogi i fonitro llwyddiant y strategaeth a'r cynllun cyflawni, ond rhaid iddo fod yn hyblyg hefyd i addasu a thargedu ymyriadau os mai dyna sydd ei angen. Felly, byddwn yn edrych yn barhaus ar sut y gellid addasu ein ffynonellau data presennol, yn ogystal ag edrych ar ffynonellau eraill i gefnogi ein gwaith. Mae'r grŵp ffrwd waith data a monitro tybaco yn gyfrifol am gynghori ar y ffynonellau data ychwanegol i bennu'r defnydd o dybaco yng Nghymru yn y dyfodol a bydd yn sicrhau bod y data ar gael i fonitro ac addasu ein hymyriadau yn ôl yr angen.

Yn dilyn y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â chwestiynau 3 a 4, mae'r strategaeth a'r cynllun cyflawni wedi'u diwygio:

- I ddileu'r cyfeiriad at ostyngiad 'sylweddol' yng nghyffredinrwydd smygu.
- I'w gwneud yn glir y byddwn yn chwilio'n barhaus am gyfleoedd i wella'r prif ffynonellau data.

Cwestiwn 5

Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth, ein bwriad yw cyhoeddi cyfres o gynlluniau cyflawni dwy flynedd. A ydych yn cytuno y dylem drefnu ein camau gweithredu yn gynlluniau cyflawni dwy flynedd? Esboniwch pam mae'r strwythur yn gweithio'n dda neu amlinellwch sut y gellid ei wneud yn well.

Crynodeb o'r materion a godwyd mewn ymateb i gwestiwn 5

Atebodd 246 o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad y cwestiwn ynghylch a oeddent yn cytuno y dylem drefnu ein camau gweithredu yn gynlluniau cyflawni dwy flynedd, gyda 45% yn cytuno ac 8% yn cytuno'n rhannol. Dywedodd 37% eu bod yn anghytuno. Dywedodd sylwadau o blaid y byddai'r strwythur hwn yn caniatáu digon o amser i weithredu newidiadau a wnaed gan y camau gweithredu a gwneud cynnydd tuag at amcanion y strategaeth, yn ogystal â chaniatáu i gynlluniau gael eu haddasu'n rheolaidd yn ôl yr angen. Awgrymwyd y byddai cylch dwy flynedd yn darparu strwythur i gynnal momentwm a hyblygrwydd i addasu i ddysgu a thystiolaeth newydd yn ystod oes y strategaeth.

Awgrymodd rhai gyfnodau amser a strwythurau gwahanol, gan gynnwys cynlluniau cyflawni mwy mynych (blynyddol), fel y gellid gweld cynnydd gweladwy mynych. Fel

arall, awgrymwyd cynlluniau hirach (tair blynedd), gan y byddai'r amserlen hon yn cyd-fynd â chylchoedd cynllunio ac ariannu, yn enwedig ar gyfer y trydydd sector.

Ni roddodd rhai o'r rhai a atebodd na i'r cwestiwn hwn esboniad neu roeddent yn ailadrodd pryderon a fynegwyd yn flaenorol bod y cynigion yn dileu rhyddid unigolyn i ddewis neu eu bod yn wastraff adnoddau.

Pwysleisiwyd yr angen am drefniadau gwerthuso effeithiol ochr yn ochr â'r cynlluniau cyflawni, gan gynnwys sefydlu dangosyddion perfformiad allweddol priodol. Aeth rhai ati hefyd i argymhell strwythurau gwerthuso mwy ffurfiol, megis comisiynu tîm ymroddedig annibynnol i asesu cynnydd y Strategaeth yn aml (awgrymwyd yn flynyddol). Hefyd, crybwyllwyd yr angen am gydlyniad rhwng pob cynllun dwy flynedd a sicrhau bod cynlluniau cyflawni'n cael yr adnoddau priodol a bod modd eu cyflawni.

Ymateb Llywodraeth Cymru a diwygiadau a wnaed i'r strategaeth a'r cynllun cyflawni

Ar y cyfan, ar ôl ystyried y pwyntiau a godwyd mewn perthynas â'r cwestiwn hwn, credwn fod cynlluniau cyflawni dwy flynedd yn darparu'r cydbwysedd priodol rhwng mynychder adroddiadau a chynnal momentwm i ganolbwyntio a sbarduno camau gweithredu a fydd yn cael effaith ddigonol ar gyffredinrwydd smygu. O ran strwythurau gwerthuso ffurfiol, rydym wedi nodi ein strwythurau llywodraethu yn y strategaeth a'r cynllun cyflawni ac rydym yn ystyried mai Grŵp Gweithredu'r Cynllun Cyflawni Rheoli Tybaco a'r Bwrdd Strategol Rheoli Tybaco (sy'n adrodd i'r Gweinidogion) yw'r strwythurau cywir i sicrhau bod y cynlluniau cyflawni a'r strategaeth yn parhau ar y trywydd iawn.

Felly, rydym yn bwriadu cadw strwythur dwy flynedd y cynllun cyflawni ond byddwn yn sicrhau bod ein prosesau llywodraethu'n adolygu ac yn ystyried a yw hyn yn parhau i fod yn briodol wrth i oes y strategaeth fynd rhagddi. Rydym yn deall hefyd yr angen i'r cynnydd sy'n cael ei wneud ar gamau gweithredu'r cynllun cyflawni fod yn dryloyw a bydd y sylwadau a dderbyniwyd ar y pwynt hwn yn ddefnyddiol iawn i'r Grŵp Gweithredu a'r Bwrdd Strategol Rheoli Tybaco. O dan gwestiwn 12, gofynnwyd i adroddiadau cynnydd gael eu cyhoeddi hefyd. Felly, bydd Grŵp Gweithredu'r Cynllun Cyflawni Rheoli Tybaco a'r Bwrdd Strategol Rheoli Tybaco yn ystyried argaeledd adroddiadau cynnydd, eu mynychder a'u trefniadau cyhoeddi (ceir rhagor o fanylion yn ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiwn 12).

Cytunir ar yr angen am gydlyniad rhwng pob cynllun dwy flynedd a sicrhau bod cynlluniau cyflawni'n cael yr adnoddau priodol a bod modd eu cyflawni fel pwyntiau hanfodol, a gwneir diwygiadau i'r dogfennau i adlewyrchu hyn.

Yn dilyn y sylwadau a gafwyd mewn perthynas â chwestiwn 5, mae'r strategaeth a'r cynllun cyflawni wedi'u diwygio:

- I'w gwneud yn glir y bydd adroddiadau cynnydd blynyddol yn cael eu darparu.
- I sicrhau ei bod yn amlwg, cymaint â phosibl, y bydd cydlyniad rhwng pob cynllun dwy flynedd.
- I adlewyrchu pwysigrwydd sicrhau bod y strategaeth a'r cynlluniau cyflawni yn cael adnoddau a bod modd eu cyflawni.

Cwestiwn 6

Yn y cynllun cyflawni cyntaf, sy'n ymdrin â'r cyfnod rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2024, rydym wedi grwpio'r camau y byddwn yn eu cymryd a'u gosod mewn pump o feysydd gweithredu blaenoriaeth:

- **Maes gweithredu blaenoriaeth 1: Amgylcheddau di-fwg**
- **Maes gweithredu blaenoriaeth 2: Gwelliant parhaus a chefnogi arloesi**
- **Maes gweithredu blaenoriaeth 3: Grwpiau blaenoriaeth**
- **Maes gweithredu blaenoriaeth 4: Mynd i'r afael â thybaco anghyfreithlon a'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoli tybaco**
- **Maes gweithredu blaenoriaeth 5: Gweithio ar draws y DU**

A ydych yn cytuno mai dyma'r meysydd gweithredu blaenoriaeth cywir i ganolbwyntio arnynt yng nghynllun cyflawni 2022-2024?

Esboniwch pam rydych chi'n ystyried bod y meysydd gweithredu blaenoriaeth yn gywir neu os ydych chi'n meddwl bod angen dull gweithredu gwahanol.

Crynodeb o'r materion a godwyd mewn ymateb i gwestiwn 6

Cafwyd llawer o sylwadau mewn perthynas â'r pum maes gweithredu blaenoriaeth yn gyffredinol, yn ogystal â'r pum maes penodol a nodwyd yn y cynllun cyflawni. Ar y cyfan, roedd cytundeb cyffredinol â'r meysydd blaenoriaeth ond gwnaed awgrymiadau ar gyfer gwelliannau, gan gynnwys:

- sicrhau bod aliniad clir rhwng y meysydd blaenoriaeth a'r tair thema strategol;
- naill ai ei gwneud yn glir nad yw'r blaenoriaethau wedi'u rhestru yn nhrefn blaenoriaeth neu eu rhoi mewn trefn wahanol gan fod rhai yn awgrymu nad yw'r drefn bresennol yn adlewyrchu'r meysydd a fydd yn cael yr effaith fwyaf;
- sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i wneud cynnydd yn erbyn y meysydd blaenoriaeth; a
- sefydlu dulliau cyflawni ac atebolrwydd clir ar gyfer gwneud cynnydd yn erbyn y meysydd blaenoriaeth.

Awgrymodd llawer fod rhaid canolbwyntio ar y camau gweithredu a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar smygu. Nododd nifer sylweddol o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynigion eu bod yn dileu rhyddid yr unigolyn i ddewis neu eu bod yn wastraff adnoddau.

Nodir sylwadau penodol ar bob un o'r meysydd gweithredu blaenoriaeth isod:

Maes gweithredu blaenoriaeth 1 (amgylcheddau di-fwg)

Pwysleisiodd llawer o'r rhai a wnaeth sylwadau ar y maes hwn fod amgylcheddau di-fwg yn elfen hanfodol o strategaeth rheoli tybaco effeithiol gan eu bod yn annog pobl i beidio â smygu, yn cael effaith ddiwylliannol o ddadnormaleiddio smygu ac yn lleihau risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â mwg ail-law, yn enwedig i blant a phobl ifanc. Gwnaed sylwadau hefyd fod amgylcheddau di-fwg presennol wedi cyfrannu at leihau cyfraddau smygu ac y gellid ystyried ymestyn i ardaloedd newydd yn faes cymharol lai cymhleth i'r Llywodraeth ei ddatblygu.

Gwnaed nifer fach o awgrymiadau ar gyfer gwelliannau i Faes Gweithredu Blaenoriaeth 1 hefyd, gan gynnwys y dylid canolbwyntio ar adeiladu ar y cynnydd a

wnaed hyd yn hyn, dylai awdurdodau lleol orfodi'r gofynion di-fwg presennol mewn ffordd addas, dylid canolbwyntio ar amlygiad plant i smygu yn y cartref, a sicrhau bod unrhyw newidiadau deddfwriaethol yn cael eu cyfleu'n glir drwy ymgyrchoedd cyhoeddus. Hefyd, yn enwedig yn ystod y digwyddiad ymgysylltu, nodwyd yr heriau o fonitro amgylcheddau di-fwg (yn enwedig mewn ysbytai) yn ogystal â chapasiti gorfodi lleol. Tynnwyd sylw hefyd at yr angen i roi ystyriaeth ofalus i sut y byddai defnyddio e-sigaréts yn cael ei drin mewn amgylcheddau di-fwg.

Fodd bynnag, cododd eraill bryderon yn ymwneud â'r maes blaenoriaeth, gan awgrymu, gan fod cynnydd sylweddol eisoes wedi'i wneud yn y maes hwn, y byddai'n well blaenoriaethu adnoddau mewn mannau eraill. Awgrymodd rhai y dylid dileu'r maes blaenoriaeth yn gyfan gwbl gan y gallai gorfodi amgylcheddau di-fwg pellach gael effaith negyddol ar y sector lletygarwch a rhyddid busnesau preifat. Dywedodd eraill y byddai cynyddu mesurau eraill megis darbwylllo a/neu gymorth i roi'r gorau i smygu yn fwy effeithiol na rheoleiddio amgylcheddau di-fwg.

Maes gweithredu blaenoriaeth 2 (gwelliant parhaus a chefnogi arloesi)

Awgrymodd rhai ymatebwyr na ddylai gwelliant parhaus a chefnogi arloesi fel un o egwyddorion sylfaenol allweddol y strategaeth gyfan fod yn faes blaenoriaeth annibynnol ond, yn hytrach, y dylai fod yn thema sy'n sail i'r strategaeth yn ei chyfanrwydd. Nododd sylwadau o blaid y maes gweithredu hwn fod arloesi a pharodrwydd i arbrofi a dysgu o dystiolaeth newydd yn allweddol ar gyfer gwneud cynnydd yn erbyn y strategaeth a chyflawni'r uchelgais o Gymru ddi-fwg. Ystyriwyd bod dod o hyd i ddulliau ataliol effeithiol a'u cefnogi, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc, yn arbennig o bwysig, yn ogystal â rhoi dulliau effeithiol ar waith i annog unigolion i beidio â smygu, a systemau cymorth rhoi'r gorau i smygu rhagorol, gan gynnwys cynigion digidol. Ystyriwyd hefyd fod cefnogi dull ataliol o ymdrin ag afiechyd a hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn hanfodol, unwaith eto yn enwedig i bobl ifanc.

Roedd y gwelliannau a awgrymwyd yn cynnwys mwy o bwyslais ar weithredu pethau y gwyddom eu bod yn gweithio'n effeithiol a'r angen i ganolbwyntio'n gliriach ar ddarparu cymorth i roi'r gorau i smygu (yn enwedig i rai grwpiau blaenoriaeth megis y rhai sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl) ac, i rai, roedd hyn yn golygu ehangu cyrhaeddiad a mynediad at wasanaethau. Gan wneud y bwriad i weithio gyda sefydliadau partner (megis ysgolion) yn gliriach, a chrybwyllwyd y rhai sydd eisoes yn gweithio gyda grwpiau blaenoriaeth hefyd. Argymhellodd rhai ymatebwyr hefyd y dylid ystyried cynhyrchion nicotin amgen fel ffordd o gynorthwyo pobl i roi'r gorau i smygu. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith bod gwahaniaethau rhanbarthol ac nad yw pob bwrdd iechyd yn dechrau o'r un lefel o gyffredinrwydd smygu. Mae angen ystyried gwahaniaethau rhanbarthol a thargedu ardaloedd sydd â'r cyfraddau cyffredinrwydd uchaf ac ystyried gwahaniaethau gwledig a threfol.

Maes gweithredu blaenoriaeth 3 (Grwpiau blaenoriaeth)

Roedd ymatebwyr yn glir y bydd canolbwyntio ar gefnogi grwpiau blaenoriaeth i roi'r gorau i smygu yn sicrhau bod lleihau anghydraddoldebau iechyd yn flaenoriaeth bwysig o ran gweithredu i reoli tybaco yng Nghymru. Yn seiliedig ar eu profiad a'u gwybodaeth eu hunain, cytunodd llawer o'r ymatebwyr fod cyffredinrwydd smygu'n uwch ymhlith y grwpiau blaenoriaeth a nodwyd, gydag un ymatebydd yn nodi bod plant a phobl ifanc o deuluoedd llai cefnog ddwywaith yn fwy tebygol o smygu o gymharu â'u cymheiriaid mwy cefnog. Grwpiau ychwanegol a nodwyd i'w cynnwys

yn y maes gweithredu hwn oedd plant sydd â phrofiad o ofal, pobl sy'n profi digartrefedd a phobl sydd yn y carchar.

Darparodd llawer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad dystiolaeth a manylion ychwanegol i gefnogi cynnwys y grwpiau blaenoriaeth a nodwyd yn y cynllun cyflawni, yn enwedig plant a phobl ifanc, pobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig a phobl feichiog. Ystyriwyd bod cydweithio â'r rhai o grwpiau blaenoriaeth i ddeall y rhesymau pam mae cyffredinrwydd smygu uwch ac i sefydlu mecanweithiau cymorth effeithiol yn hanfodol. Roedd llawer o'r farn bod trin smygu fel caethiwed yn hytrach na dewis ffordd o fyw yn hollbwysig.

Maes Gweithredu Blaenoriaeth 4 (mynd i'r afael â thybaco anghyfreithlon a'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoli tybaco)

Roedd nifer uchel o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad ac a roddodd eu barn yn y digwyddiad ymgysylltu'n cytuno y dylai mynd i'r afael â thybaco anghyfreithlon fod yn faes blaenoriaeth. Amlygodd ymatebion gan fyrddau iechyd fod y cyflenwad parhaus o dybaco anghyfreithlon, yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd uchel lle mae cyffredinrwydd smygu ar ei uchaf, yn tanseilio'r ddeddfwriaeth bresennol ac y bydd angen gwaith i fynd i'r afael â thybaco anghyfreithlon yn effeithiol gyda chymunedau cyfan, ac amrywiaeth o sectorau. Tynnwyd sylw hefyd at fynediad at dybaco anghyfreithlon a'r defnydd ohono gan bobl yn rhai o'r grwpiau blaenoriaeth (pobl ifanc yn bennaf, a'r rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig), felly ystyrir bod mynd i'r afael â'r mater hwn yn bwysicach fyth yn y grwpiau hynny. Ymhlith y pryderon eraill a nodwyd oedd y cynnydd mewn gwerthiant cynhyrchion tybaco ar-lein i blant o dan 18 oed; argaeledd hylif e-sigaréts didrwydded; a bod cyflenwi tybaco anghyfreithlon yn ei gwneud yn haws i blant ddechrau smygu a mynd yn gaeth i nicotin, gan ei gwneud yn anoddach i oedolion roi'r gorau i smygu. Tynnwyd sylw hefyd at yr angen i fynd i'r afael â chyflenwi cynhyrchion nicotin eraill (nid tybaco yn unig).

Cydnabuwyd hefyd fod mynd i'r afael â thybaco anghyfreithlon yn gofyn am strategaeth hirdymor i atal y cyflenwad a'r galw ac y dylai trefn y meysydd blaenoriaeth adlewyrchu'n well yr effaith gymharol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd mewn grwpiau blaenoriaeth. Tynnodd rhai sylw at yr anawsterau o ran mynd i'r afael â'r maes hwn, gan ei fod yn fater i'r DU gyfan, felly mae angen dull cryf gan y rhai sy'n mynd i'r afael â throsedd cyfundrefnol, a rheoli ffiniau i fynd i'r afael â'r cyflenwad. Ystyriwyd bod cefnogi awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r mater yn bwysig.

Maes gweithredu blaenoriaeth 5 (gweithio ar draws y DU)

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cefnogi'r maes gweithredu gan yr ystyriwyd y byddai cydweithio ledled y DU yn galluogi rhannu arloesedd, arfer gorau a dysgu. Ystyriwyd bod dull gweithredu cyson ledled y DU yn bwysig hefyd, gan nad yw pob cam gweithredu rheoli tybaco yn fater datganoledig, ac ystyriwyd bod cael mynediad ledled y DU at ddewisiadau eraill sy'n llai niweidiol na thybaco yn bwysig. Ychwanegodd rhai y byddai hyn yn sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru fynediad at y dulliau mwyaf effeithiol hefyd. Fel yn achos Maes Gweithredu Blaenoriaeth 2, teimlai rhai na ddylai gweithio ar draws y DU fod yn faes blaenoriaeth annibynnol, ond yn hytrach yn thema sy'n sail i'r strategaeth gyfan. Nododd ambell ymatebydd y dylid ymestyn cwrdd y meysydd y tu hwnt i'r DU i gynnwys gweithio ar lefel ryngwladol.

Fodd bynnag, roedd eraill yn cwestiynu manteision gweithio ar draws y DU ac awgrymwyd y dylid canolbwyntio ar waith cenedlaethol effeithiol yng Nghymru yn gyntaf gan fod gennym gyfrifoldeb dros hyn.

Cwestiwn 7

Rydym wedi datblygu nifer o gamau gweithredu ym mhob maes gweithredu blaenoriaeth. Ydych chi o'r farn mai'r rhain yw'r rhai cywir? Esboniwch pam bod y camau gweithredu'n gywir neu sut y gellir eu gwella.

Crynodeb o'r materion a godwyd mewn ymateb i gwestiwn 7

Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau a gafwyd mewn perthynas â'r cwestiwn hwn yn ymwneud â'r materion canlynol:

1. E-sigaréts - gwella'r cam gweithredu sy'n ymwneud â rôl e-sigaréts a chynhyrchion nicotin eraill (cam gweithredu 3 o dan Faes Gweithredu Blaenoriaeth 2). Roedd llawer yn teimlo bod angen camau gweithredu mwy pendant neu ddatganiad sefyllfa gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r cynhyrchion hyn, gan gynnwys safbwynt cliriach ar fabwysiadu cynhyrchion nicotin fel dull o leihau niwed, datganiadau cliriach ar y cynllun i gasglu tystiolaeth a'r cynlluniau ar gyfer gorfodi'r cynhyrchion hyn yn effeithiol drwy ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig ag oedran.
2. Grwpiau blaenoriaeth (Maes Gweithredu Blaenoriaeth 3) - Y prif grwpiau blaenoriaeth a amlygwyd gan ymatebwyr oedd plant a phobl ifanc, pobl feichiog, y rhai sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl a phobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig. Awgrymwyd y dylid safoni sgrinio ar gyfer pobl feichiog drwy ddefnyddio ymwelwyr iechyd (neu weithwyr iechyd proffesiynol eraill yn y gymuned) ac atgyfeirio i wasanaethau rhoi'r gorau i smygu, yn ogystal â sefydlu ymyriadau mewn ysgolion ar gyfer plant a phobl ifanc.
3. Rhoi'r gorau i smygu - pwysleisiodd llawer yr angen i dynnu sylw yn y cynllun cyflawni at y dulliau arloesol a digidol sydd ar gael i leihau'r nifer sy'n dechrau smygu a hyrwyddo rhoi'r gorau i smygu. Gofynnodd rhai am fanylion ychwanegol am y modelau arfaethedig o roi'r gorau i smygu, gan gynnwys tynnu sylw at rôl gwasanaethau gofal sylfaenol a manylion am sut beth ddylai gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu gofal eilaidd systematig fod.
4. Camau gweithredu ychwanegol ar ddata a chasglu tystiolaeth ar draws yr holl feysydd gweithredu blaenoriaeth – teimlwyd bod angen data cyson a rheolaidd i gefnogi'r camau gweithredu arfaethedig ac i werthuso ac adolygu gwahanol ddulliau'n barhaus, yn ogystal â chasglu tystiolaeth yn ymwneud â'r dulliau mwyaf effeithiol yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys gwneud casglu statws smygu yn orfodol, hyfforddiant cyson i'r holl staff a chasglu tystiolaeth ryngwladol.

Cwestiwn 8

A ydych yn credu bod unrhyw gamau gweithredu allweddol nad ydynt wedi'u cynnwys yn y meysydd gweithredu blaenoriaeth? Os felly, beth ydynt?

Crynodeb o'r materion a godwyd mewn ymateb i gwestiwn 8

Roedd y sylwadau yma yn ymwneud â'r meysydd canlynol:

1. Gorfodi'r gofynion sydd eisoes ar waith neu weithredu meysydd sydd eisoes ar gael. Roedd ymatebwyr yn teimlo bod angen gweithredu a gorfodi deddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â rheoli tybaco. Codwyd y pwynt hwn yn arbennig mewn perthynas â Maes Gweithredu Blaenoriaeth 1 (amgylcheddau di-fwg) a Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017. Ystyriwyd hefyd ei bod yn bwysig gorfodi deddfwriaeth sy'n ymwneud â gwerthu tybaco a chynhyrchion nicotin dan oed a chadwyni cyflenwi.
2. Awgrymiadau i gyflwyno cynlluniau i ymestyn mannau di-fwg (gyda rhai'n awgrymu cartrefi preifat), cynyddu cyfyngiadau oedran ar dybaco a chynhyrchion sy'n cynnwys nicotin ac edrych ar y darpariaethau sydd eisoes yn bodoli (yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017) i dargedu cyflenwad cynhyrchion anghyfreithlon a gwerthiannau dan oed.
3. Pwyslais cliriach ar rôl gweithwyr proffesiynol a phartneriaid wrth gefnogi'r meysydd gweithredu blaenoriaeth arfaethedig. Roedd gweithwyr proffesiynol yn cynnwys fferyllwyr, nyrsys, bydwragedd, gweithwyr gofal sylfaenol proffesiynol a'r rhai sy'n gweithio ym maes safonau masnach. Teimlwyd hefyd fod hyfforddiant yn hollbwysig a bod rhaid iddo gael ei ddarparu i'r holl staff a bod yn rhan o'u hamserlen hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys galluogi holl staff y GIG i allu cynnig cymorth llinell gyntaf priodol i ysmygwyr maent yn dod ar eu traws. Bydd angen partneriaethau i gyflawni'r cynllun, gan gynnwys sefydliadau'r trydydd sector a phartneriaid cenedlaethol ar lefel y DU.
4. Cymorth rhoi'r gorau i smygu. Rhaid cynyddu mynediad, gyda phwyslais ar fod yn gefnogol, peidio â stigmatiddio na chosbi, neu fel arall teimlwyd bod perygl o ddiethrio ysmygwyr. Hefyd, dylid defnyddio mwy o gymhellion i annog pobl i roi'r gorau i smygu, yn enwedig ar gyfer grwpiau blaenoriaeth, a mynd i'r afael â'r defnydd o e-sigaréts. Dylai'r gwahanol staff sy'n ymwneud â chymorth rhoi'r gorau i smygu gael eu cydnabod ar fanciau priodol hefyd, a'r sgiliau proffesiynol amrywiol, gan safoni'r cynnig ledled Cymru. O ran fferylliaeth gymunedol, sylw penodol oedd y dylai pob bwrdd iechyd fod yn rhan o'r gwasanaeth Helpa Fi i Stopio mewn Fferyllfeydd ac y dylai pob fferyllfa gynnig y gwasanaeth lefel 2 heb unrhyw gyfyngiadau comisiynu.
5. Ymgyrchoedd torfol yn y cyfryngau. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd ymgyrchoedd torfol effeithiol yn y cyfryngau fel rhan o'r cynllun cyflawni cyffredinol ar gyfer rheoli tybaco.
6. Effaith smygu ar ffactorau eraill gan gynnwys defnyddio cannabis, alcohol neu gyffuriau, gamblo a materion iechyd meddwl.

Ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiynau 6, 7 ac 8 a diwygiadau a wnaed i'r strategaeth a'r cynllun cyflawni

Roedd yr ymatebion i'r cwestiynau hyn yn cynnig llawer o awgrymiadau defnyddiol ar wella'r cynllun cyflawni dwy flynedd cyntaf.

Maes Gweithredu Blaenoriaeth 1: Amgylcheddau di-fwg

Rydym yn cytuno ei bod yn hanfodol bod y gofynion deddfwriaethol presennol mewn perthynas â gofynion di-fwg yn cael eu gorfodi a'u cefnogi'n briodol ac y bydd diwygiadau'n cael eu gwneud i'r cynllun cyflawni er mwyn sicrhau bod hyn yn glir. Byddwn yn gweithio gyda Grŵp Gweithredu'r Cynllun Cyflawni Rheoli Tybaco hefyd i nodi unrhyw rwystrau i orfodi'r gofynion deddfwriaethol presennol.

Mae sicrhau bod effaith unrhyw newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol yn cael eu deall yn rhan annatod o'r broses polisi a deddfwriaeth hefyd a bydd unrhyw ofynion di-fwg yn y dyfodol yn cael eu gwerthuso'n briodol, gan gynnwys effaith busnes. Mae'n bwysig hefyd ein bod yn sicrhau bod y cyhoedd yn deall y rheswm dros newidiadau deddfwriaethol, felly mae rôl cyfathrebu clir drwy ymgyrchoedd cyhoeddus yn bwysig. Mae'r ffordd mae gofynion deddfwriaethol yn cysylltu â mesurau eraill megis gwasanaethau rhoi'r gorau i smygu'n bwysig hefyd, a byddwn yn sicrhau bod pob ymgyrch gyfathrebu yn y dyfodol (yn benodol ar ardaloedd di-fwg ond yn ehangach hefyd) yn glir ac yn defnyddio dulliau cyfathrebu priodol. Gwnaed sylwadau ar gyfathrebu o dan gwestiwn 12 hefyd.

O ran amlygiad plant i smygu yn y cartref, mae amddiffyn plant a phobl ifanc rhag mwg ail-law niweidiol yn eithriadol o bwysig, yn enwedig o safbwynt effeithiau iechyd ond hefyd o safbwynt dadnormaleiddio. Er mai prin yw'r gallu sydd gennym i ddeddfu ar gyfyngu ar weithgareddau mewn anheddau, ar 1 Mawrth 2021 fe'i gwnaethom yn drosedd smygu mewn cartref tra bod person yn gweithio yno. Rydym yn gweithio gyda'r Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr hefyd i ddeall canfyddiad pobl ifanc o smygu (gan gynnwys yn y cartref).

Maes Gweithredu Blaenoriaeth 2: Gwelliant parhaus a chefnogi arloesi

Mae'n gadarnhaol iawn bod llawer o ymatebwyr yn cytuno bod arloesi (gan gynnwys edrych ar fentrau rhyngwladol) a pharodrwydd i arbrofi a dysgu o dystiolaeth newydd yn elfennau allweddol i wneud cynnydd yn erbyn y strategaeth. Mae arloesi o ran atal a rhoi'r gorau i smygu'n feysydd arbennig o bwysig gan ein bod yn gwybod bod angen i ni weithredu'r ymyriadau a fydd yn cyseinio â'r rhai rydym am eu cyrraedd, yn enwedig y rhai yn ein grwpiau blaenoriaeth. Mae hyn yn debygol o fod yn wahanol yn dibynnu ar y grŵp targed ond gallai olygu pethau fel cymhellion, dulliau cyfathrebu a negeseuon (er enghraifft, i atal pobl ifanc rhag dechrau smygu) neu gynnig rhoi'r gorau i smygu sy'n cael ei gefnogi gan dechnoleg (er enghraifft, offer rhoi'r gorau i smygu digidol fel apiau). Mae alinio'r dulliau hyn â dulliau eraill yn bwysig hefyd. Rydym felly wedi diwygio'r strategaeth a'r cynllun cyflawni i ddangos y mathau o ddatblygiadau arloesol y gellir edrych arnynt ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd cysylltu â systemau eraill sy'n hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a chefnogi'r un grwpiau ag yr ydym yn eu targedu.

Cytunir hefyd ar rôl gweithwyr proffesiynol a phartneriaid wrth gefnogi'r uchelgais. Mae'r dogfennau wedi'u diwygio i dynnu sylw at bwysigrwydd ein partneriaid wrth gyflawni'r strategaeth, yn ogystal â chefnogi'r gweithwyr proffesiynol hynny sy'n rhyngweithio ag ysmygwyr gyda hyfforddiant priodol fel eu bod yn teimlo y gallant gynnig cymorth llinell gyntaf priodol i ysmygwyr y maent yn dod ar eu traws.

Er bod arloesi'n hollbwysig, mae adeiladu ar y pethau sydd eisoes ar waith ac rydym yn gwybod eu bod yn gweithio yn bwysig hefyd. Mae ein gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu Helpa Fi i Stopio yn cynorthwyo llawer o bobl bob blwyddyn i roi'r gorau i smygu, ond awgrymodd rhai o'r bobl a roddodd eu barn yn ystod yr ymgynghoriad a'r gwaith ymgysylltu y gellid ehangu'r gwasanaethau i gefnogi mwy o bobl, er enghraifft, pobl yn yr ysbyty. Rydym yn cytuno hefyd y dylai'r gwahanol staff ar draws y sgiliau proffesiynol amrywiol sy'n gysylltiedig â chymorth rhoi'r gorau i smygu gael eu cydnabod. Fel y nodwyd, mae gwahaniaethau rhanbarthol mewn dulliau gweithredu ac nid yw pob bwrdd iechyd yn dechrau o'r un lefel o gyffredinrwydd

smygu. Felly er bod angen targedu ardaloedd sydd â'r cyffredinrwydd uchaf, rydym yn cytuno bod rhaid i'r dull ystyried gwahaniaethau gwledig a threfol a gwyddom fod llawer o fyrddau iechyd eisoes yn ystyried hyn. Tynnwyd sylw hefyd at bwyntiau ar gefnogi pobl drwy Helpa Fi i Stopio yn y Gymraeg a wnaed o dan gwestiwn 12 a phwyntiau cyffredinol ar ddull gweithredu'r gwasanaethau (h.y. nad ydynt yn stigmatiddio nac yn cosbi). Byddwn yn sicrhau bod Iechyd Cyhoeddus Cymru, arweinwyr tybaco byrddau iechyd a Grŵp Gweithredu'r Cynllun Cyflawni Rheoli Tybaco yn gallu gweld y safbwyntiau a fynegwyd mewn perthynas â Helpa Fi i Stopio ac yn gallu ystyried y ffyrdd gorau o gefnogi gwelliant parhaus y gwasanaeth, gan gynnwys cefnogi mynediad cyfartal ledled Cymru at wasanaethau fel y rhai mewn fferyllfeydd a fydd, yn y pen draw, yn cynorthwyo mwy o bobl i roi'r gorau i smygu am byth.

Gwnaed nifer sylweddol o sylwadau ar e-sigaréts, a nodir yng nghanam gweithredu 3 o'r maes gweithredu blaenoriaeth hwn. Rydym yn cytuno bod angen datganiad sefyllfa cliriach ar rôl cynhyrchion nicotin fel arf i leihau niwed yng Nghymru, mewn amgylcheddau di-fwg ac ar gyfer rhoi'r gorau i smygu'n benodol. Fodd bynnag, rydym yn glir na ddylai plant a phobl ifanc a phobl nad ydynt yn smygu byth ddefnyddio e-sigaréts ond, fel y dywedodd rhai ymatebwyr yn eu cyfraniadau, mae pobl o'r grwpiau hyn yn eu defnyddio. Bwriadwn edrych ar y maes hwn fel blaenoriaeth, gan ein bod yn cytuno bod angen eglurder. Mater i Lywodraeth y DU yw cyfyngiadau ar y cynhyrchion eu hunain ac rydym yn parhau i ymgysylltu â nhw i gefnogi fframwaith rheoleiddio cryf.

Maes gweithredu blaenoriaeth 3: Grwpiau blaenoriaeth

Mae'n gadarnhaol bod llawer o ymatebwyr yn cytuno â'r grwpiau blaenoriaeth a nodwyd a bydd y ddealltwriaeth a ddarperir ar ddulliau a allai weithio i'r grwpiau hyn yn cael ei rhannu â Grŵp Gweithredu'r Cynllun Cyflawni Rheoli Tybaco. Mae enghreifftiau'n cynnwys safoni sgrinio ar gyfer menywod beichiog drwy ddefnyddio ymwelwyr iechyd (neu weithwyr iechyd proffesiynol eraill yn y gymuned) ac atgyfeirio i wasanaethau rhoi'r gorau i smygu a sefydlu ymyriadau mewn ysgolion (gan gynnwys gwell adnoddau i nyrsys ysgol) ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae defnyddio cymhellion i lawer o grwpiau yn faes y bwriadwn ei archwilio gyda'r bwriad o ddatblygu ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth a fydd yn cefnogi pobl i roi'r gorau i smygu. Roedd plant sydd â phrofiad o ofal, pobl sy'n profi digartrefedd a phobl sydd yn y carchar yn grwpiau ychwanegol a awgrymwyd a byddwn yn sicrhau eu bod yn cael eu dwyn i sylw'r grŵp gweithredu wrth iddynt ystyried gwaith grwpiau blaenoriaeth. Rydym yn cytuno â llawer o'r ymatebwyr bod cydweithio â'r rhai o grwpiau blaenoriaeth i ddeall y rhesymau pam mae cyffredinrwydd smygu yn uwch ac i sefydlu mecanweithiau cymorth effeithiol yn hanfodol, ac mae'r strategaeth a'r dogfennau cynllun cyflawni wedi'u diwygio i adlewyrchu hyn. Fel uchod, mae gweithio o fewn y strwythurau hynny sydd eisoes yn gweithio gyda'r rhai mewn grwpiau blaenoriaeth ac yn eu cefnogi yn bwysig, yn ogystal â deall dylanwad ffactorau eraill ar y defnydd o dybaco, megis defnyddio canabis, alcohol neu gyffuriau, yn ogystal â materion iechyd meddwl.

Maes Gweithredu Blaenoriaeth 4: Mynd i'r afael â thybaco anghyfreithlon a'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoli tybaco

Nodwyd bod tybaco anghyfreithlon yn broblem yng Nghymru sawl blwyddyn yn ôl, ac mae Llywodraeth Cymru wedi recriwtio gweithiwr safonau masnach proffesiynol i

helpu i ddatblygu mentrau i fynd i'r afael â thybaco anghyfreithlon yng Nghymru. Yn ogystal, mae cyllid cenedlaethol a ddarperir gan CThEM yn arwain at fwy o adrodd ac atafaelu cynhyrchion tybaco anghyfreithlon yng Nghymru. Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad a'r gwaith ymgysylltu ar dybaco anghyfreithlon yn cael eu hystyried wrth i'r maes gwaith hwn barhau.

Maes gweithredu blaenoriaeth 5: gweithio ar draws y DU

Rydym yn cytuno â llawer o'r ymatebion ar y maes hwn bod cydweithio ar draws y DU yn arbennig o bwysig gan y bydd llawer o'r ymyriadau arwyddocaol y byddem yn eu cefnogi yng Nghymru (cynnydd mewn oedran gwerthu tybaco, mynd i'r afael â llygredd plastig, trwyddedu i fanwerthwyr, lleihau cynnwys nicotin cynhyrchion ac ardoll ar y diwydiant tybaco, er enghraifft) yn cael yr effaith fwyaf ar lefel y DU. Yn yr un modd â gwelliant parhaus a chefnogi arloesi, teimlai rhai y dylai gweithio ar draws y DU a dysgu o arfer da mewn mannau eraill fod yn sail i'r strategaeth gyfan. Rydym yn cytuno bod hyn yn bwysig, yn yr un modd â dysgu o ddulliau eraill, gan gynnwys y camau sy'n cael eu cymryd yn rhyngwladol, felly mae'r dogfennau wedi'u diwygio i adlewyrchu hyn.

Strwythur y cynllun cyflawni

Rydym yn falch bod yr ymatebwyr o'r farn mai'r pum maes blaenoriaeth oedd y meysydd cywir i ganolbwyntio arnynt yn ystod y cyfnod dwy flynedd cyntaf. Gwnaed rhai sylwadau yn cwestiynu trefn y meysydd gweithredu blaenoriaeth, fodd bynnag, ac a ydynt yn adlewyrchu pwysigrwydd y camau gweithredu neu'n cysylltu'n uniongyrchol â'r tair thema strategol o reidrwydd. Ein dull gweithredu yw bod pob un o'r pum maes gweithredu yr un mor bwysig â'i gilydd, a bwriadwn wneud cynnydd ar draws pob maes. Mae'r rhifau felly at ddibenion monitro yn hytrach nag yn arwydd o bwysigrwydd, ond byddwn wedi gwneud hyn yn gliriach yn y cynllun cyflawni.

Mae'r sylwadau ar sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i wneud cynnydd yn erbyn y meysydd blaenoriaeth a sefydlu mecanweithiau cyflawni ac atebolrwydd clir wedi'u hadlewyrchu o dan gwestiwn 5.

Mae'r strategaeth a'r cynllun cyflawni wedi'u diwygio:

- I'w gwneud yn glir yn y cynllun cyflawni bod pob un o'r pum maes gweithredu blaenoriaeth yr un mor bwysig â'i gilydd.
- I sicrhau ei bod yn glir yn y cynllun cyflawni bod angen cefnogi a gorfodi'r gofynion di-fwg deddfwriaethol presennol.
- I dynnu sylw at bwysigrwydd ymgyrchoedd a dulliau cyfathrebu sy'n ymgysylltu â chynulleidfaoedd yn y ffordd briodol (gan gynnwys iaith).
- I ddangos y mathau o ddatblygiadau arloesol y gellir eu hystyried o dan y Maes Gweithredu Blaenoriaeth Gwelliant Parhaus .
- I dynnu sylw at bwysigrwydd cysylltu datblygiadau arloesol o ran smygu â systemau eraill sy'n cefnogi'r un grŵp blaenoriaeth.
- I sicrhau bod egwyddorion gwelliant parhaus a chefnogi arloesi, a dysgu o arfer da mewn mannau eraill (yn genedlaethol ac yn rhyngwladol), yn cael eu hamlygu yn y dogfennau.
- I'w gwneud yn glir bod egluro'r sefyllfa o ran e-sigaréts yng Nghymru yn flaenoriaeth.
- I dynnu sylw at bwysigrwydd ein partneriaid wrth gyflawni'r strategaeth.
- I sicrhau bod anghenion hyfforddi staff yn cael eu hystyried.

- I'w gwneud yn glir bod cydweithio â'r rhai o grwpiau blaenoriaeth i ddeall y rhesymau pam mae cyffredinrwydd smygu yn uwch a sefydlu mecanweithiau cymorth effeithiol yn hanfodol.

Cwestiwn 9

A yw'r strategaeth a'r cynllun cyflawni yn cyd-fynd â meysydd polisi ac ymarfer perthnasol eraill?

Esboniwch pam y mae'n cyd-fynd yn dda neu amlinellwch sut y gellid ei wneud yn well.

Crynodeb o'r materion a godwyd mewn ymateb i gwestiwn 9

Roedd hanner yr holl ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad yn cytuno neu'n cytuno'n rhannol fod y strategaeth a'r cynllun cyflawni'n cyd-fynd â meysydd polisi ac ymarfer perthnasol eraill, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Cymru Iachach, strategaeth Adfer Covid Llywodraeth Cymru a Chynlluniau Gweithredu Strategol Cydraddoldeb Hiliol. Nododd rhai o'r bobl a wnaeth sylwadau eu bod yn cyd-fynd â strategaethau atal, plant ac anghydraddoldebau amrywiol, yn ogystal â meysydd eraill sy'n berthnasol i dybaco, gan gynnwys blaenoriaethau Safonau Masnach, gwella mynediad at ofal iechyd, y gweithlu (un a godwyd yn benodol oedd y gweithlu fferylliaeth drwy *Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach*), gwydnwch a rheoli troseddu.

O ran gwelliannau, gwnaed y pwyntiau canlynol:

1. Mae angen datganiad clir o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Gonfensiwn Fframwaith Sefydliad Iechyd y Byd ar Reoli Tybaco yn y strategaeth, gan gyfeirio'n benodol at weithredu Erthygl 5.3, sy'n diogelu polisiâu iechyd rhag buddiannau breiniedig y diwydiant tybaco, yn ogystal ag ymrwymiad cysylltiedig i inswleiddio penderfyniadau polisi rhag dylanwad y diwydiant tybaco.
2. Dywedodd nifer fach o'r ymatebwyr y dylai'r strategaeth groesawu ethos Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn llawn ac y dylai'r pum ffordd o weithio gael eu hymgorffori mewn cynlluniau cyflawni yn y dyfodol fel bod ysmygwyr, eu teuluoedd a'r cymunedau a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi yn rhan o'r gwaith o ddatblygu camau gweithredu.
3. O ran y dull system gyfan, awgrymwyd bod aliniad cliriach â pholisïau ehangach sy'n ymwneud ag iechyd meddwl, tai cymdeithasol, camddefnyddio sylweddau, nyrsio, y cynlluniau ysgolion iach, anabledau dysgu a'r defnydd o ganabis. Yn ddelfrydol, byddai'r uchelgais ddi-fwg yn rhan annatod o bob sefydliad a'u dogfennau a'u harferion ehangach, yn enwedig y rhai sy'n cefnogi grwpiau blaenoriaeth. Pwysleisiodd ychydig hefyd fod angen aliniad gwell ag arferion a strwythurau perthnasol sy'n bodoli eisoes, megis y rhai mewn gofal sylfaenol, PSBs ac RPBs, yn ogystal â phrosesau ar gyfer ymgynghori â phlant a phobl ifanc.

Ymateb Llywodraeth Cymru a diwygiadau a wnaed i'r strategaeth a'r cynllun cyflawni

Un o themâu allweddol y strategaeth yw'r dull system gyfan, felly mae'n gadarnhaol bod llawer o'r ymatebwyr yn teimlo bod y strategaeth a'r cynllun cyflawni'n cyd-fynd yn dda â llawer o feysydd deddfwriaeth, polisi a strategaeth eraill. Mae hyn yn cynnwys adlewyrchu'r dull cydgysylltiedig, cydweithredol a fabwysiadwyd yn *Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol*. Wrth ddatblygu'r strategaeth a'r cynllun cyflawni, roeddem am ymgorffori gofynion *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015*, yn enwedig y pum ffordd o weithio, er mwyn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r heriau a achosir gan dybaco mewn ffordd gynaliadwy. Dewiswyd thema strategol 'Cenedlaethau'r Dyfodol' yn fwriadol hefyd yng nghyd-destun tybaco oherwydd yr effaith mae smygu yn ei chael ar blant a phobl ifanc ac i adlewyrchu'r gofynion ar y Llywodraeth i gymryd camau sydd o fudd i genedlaethau'r dyfodol. Felly, mae amddiffyn plant a phobl ifanc rhag peryglon tybaco a smygu yn hanfodol. Rydym yn cytuno hefyd â phwysigrwydd cynnwys a chydweithredu, yn enwedig gyda'r rheini o grwpiau blaenoriaeth, eu teuluoedd a'r cymunedau a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi i ddatblygu camau gweithredu. Tynnir sylw at y pwynt hwn ym Maes Gweithredu Blaenoriaeth 3 y cynllun cyflawni, ond byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd i gryfhau'r dull hwn yn y strategaeth ac mewn mannau eraill yn y cynllun cyflawni.

Cytunwn â'r angen i ymgorffori'r uchelgais ddi-fwg ym mhob sefydliad a'u dogfennau a'u harferion ehangach, yn enwedig y polisiâu a'r sefydliadau hynny sy'n cefnogi grwpiau blaenoriaeth. Tynnwyd sylw at arferion a strwythurau presennol, megis y rhai mewn gofal sylfaenol, PSBs ac RPBs. Rydym yn cytuno hefyd â'r angen i gyd-fynd â pholisiâu eraill sy'n ymwneud ag, er enghraifft, iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, nyrsio, y cynllun ysgolion iach, anabledau dysgu a'r defnydd o ganabis. Rydym wedi ceisio adlewyrchu'r pwyntiau hyn o dan y thema 'Dull System Gyfan ar gyfer Cymru Ddi-fwg' yn y strategaeth, yn ogystal ag ym meysydd gweithredu blaenoriaeth y cynllun cyflawni.

Mae Llywodraeth Cymru yn gorfod cydymffurfio â gofynion Erthygl 5.3 o Gonfensiwn Fframwaith Sefydliad Iechyd y Byd ar Reoli Tybaco er mwyn diogelu polisi iechyd y cyhoedd rhag buddiannau breintiedig y diwydiant tybaco. Yn ogystal, roedd datganiad ar Erthygl 5.3 wedi'i gynnwys ar dudalen cofrestru'r digwyddiad ymgysylltu, a gofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau. Er bod y dogfennau drafft yn cyfeirio at Erthygl 5.3, rydym wedi diwygio'r geiriad i gryfhau'r ymrwymiad yn y strategaeth a'r cynllun cyflawni.

Mae'r strategaeth a'r cynllun cyflawni wedi'u diwygio:

- I sicrhau bod pwysigrwydd cynnwys a chydweithredu, yn enwedig gyda'r rhai o grwpiau blaenoriaeth a'r cymunedau a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi, yn cael ei amlygu.
- I ystyried y systemau a'r polisiâu y tynnwyd sylw atynt fel rhai pwysig o dan y Dull System Gyfan ar gyfer Cymru Ddi-fwg.
- I sicrhau bod y rhwymedigaethau i Erthygl 5.3 yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yn y dogfennau a bod yr holl gamau gweithredu'n cefnogi'r rhwymedigaethau (fel y nodir o dan gwestiwn 12 hefyd).

Cwestiwn 10

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai Cymru Ddi-fwg: Ein strategaeth hirdymor ar Reoli Tybaco yng Nghymru a Tuag at Gymru Ddi-fwg:

Cynllun Cyflawni ar Reoli Tybaco 2022-2024 yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi? Sut fyddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?

Crynodeb o'r materion a godwyd mewn ymateb i gwestiwn 10

O'r 126 o ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn yn ystod yr ymgynghoriad, nododd dau o bob pump nad oeddent yn rhagweld y byddai'r strategaeth a'r cynllun cyflawni'n cael unrhyw effeithiau uniongyrchol ar y Gymraeg. O'r rhai a wnaeth sylwadau, dywedodd rhai na fyddai'n rhesymol disgwyl i'r strategaeth a'r cynllun cyflawni gyfrannu'n gadarnhaol at y Gymraeg a dywedodd eraill na ellid disgwyl i'r dogfennau gael unrhyw effaith (yn gadarnhaol neu'n negyddol) ar y Gymraeg.

Nodwyd yr effeithiau cadarnhaol a negyddol canlynol:

- Gallai'r strategaeth gael effaith gadarnhaol gan y bydd yn arwain at gymunedau iachach a siaradwyr Cymraeg iachach.
- O ran effeithiau negyddol, roedd y rhain yn canolbwyntio ar yr effeithiau economaidd, er enghraifft, effaith negyddol ar niferoedd ymwelwyr ledled Cymru.

Daeth tair thema gyffredinol i'r amlwg hefyd o'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn:

- Yr angen i wasanaethau, cyhoeddiadau ac ymgyrchoedd cyfathrebu fod yn gwbl ddwyieithog (a chynnwys ystyriaeth o'r iaith pan fyddant yn cael eu datblygu) fel eu bod yn hygyrch ac yn ystyrlon i bawb yng Nghymru, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg.
- Y ffaith y byddai angen i'r broses o weithredu'r strategaeth gydymffurfio â deddfwriaeth a safonau'r Gymraeg.
- Yr angen i ystyried ieithoedd cyffredin eraill wrth weithredu'r strategaeth fel bod yr holl wybodaeth a chymorth ar gael ym mhob iaith ofynnol i sicrhau ein bod yn gynhwysol.

Mae ymateb Llywodraeth Cymru a'r diwygiadau a wnaed i'r strategaeth a'r cynllun cyflawni yn ymwneud â'r materion hyn wedi'u nodi isod o dan gwestiwn 11.

Cwestiwn 11

Hefyd, esboniwch sut y gallai'r strategaeth arfaethedig a'r cynllun cyflawni gael eu llunio neu eu newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac osgoi unrhyw effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Crynodeb o'r materion a godwyd mewn ymateb i gwestiwn 10

Llai nag un o bob deg o'r rhai a gyfrannodd at yr ymarfer ymgynghori a gynigiodd unrhyw syniadau penodol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. O'r rhai a wnaeth sylwadau, roeddent yn atgyfnerthu gofynion deddfwriaeth a safonau'r Gymraeg ac yn

cefnogi amcanion Cymraeg 2050. Dywedodd un ymatebydd nad yw'r strategaeth yn cyfeirio at y Gymraeg o gwbl.

Cyfeiriodd llawer o'r ymatebion at yr angen i sicrhau bod mynediad cyfartal ac adnoddau a gwasanaethau dwyieithog yn parhau i fod ar gael i ddefnyddwyr yn y dyfodol ac y gellid cynnal clinigau rhoi'r gorau i smygu yn ddwyieithog. Mae angen i'r adnoddau (yn y ddwy iaith) fod yn hygyrch ac yn hawdd eu darllen. Fodd bynnag, nododd ymatebion gan ddarparwyr gwasanaethau rhoi'r gorau i smygu fod cymorth ar gael fel mater o drefn i ddefnyddwyr yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac mae'r holl adnoddau (megis adnoddau cymorth, posteri a gwybodaeth ar wefanau) a chyfathrebiadau ar y cyfryngau cymdeithasol yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog eisoes. Roedd sylwadau ar wasanaethau dwyieithog yn cynnwys yr angen i gynniig llinellau cymorth a gwasanaethau sgwrsio ar-lein dwyieithog hefyd a mwy o grwpiau cymorth rhoi'r gorau i smygu yn Gymraeg, yn enwedig yn y Gogledd a'r Gorllewin. Awgrymwyd hefyd y dylid cymhell pobl, er enghraifft, drwy gynniig gwersi Cymraeg am ddim i rieni sy'n llwyddo i roi'r gorau i smygu. Dywedodd un ymatebydd fod rhaid i staff nyrsio gael y cyfle i ddysgu Cymraeg fel y gall y rhai sy'n fwy cyfforddus yn trafod eu hiechyd yn Gymraeg wneud hynny.

Ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiynau 10 ac 11 a diwygiadau a wnaed i'r strategaeth a'r cynllun cyflawni

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno'n llwyr fod gwasanaethau a deunyddiau cymorth dwyieithog ar roi'r gorau i smygu yn cael eu darparu a'u bod ar gael. Mae ein gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu, HMQ, yn cynniig gwasanaethau cwbl ddwyieithog ac mae ein holl ddeunyddiau cyfathrebu yn ddwyieithog ac yn cael eu gwirio i sicrhau eu bod yn apelgar yn y ddwy iaith. Mae gwasanaethau'r GIG ar gael mewn ieithoedd cyffredin hefyd. Fodd bynnag, mae ffyrdd o wella gwasanaethau bob amser. Bydd y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r cwestiynau hyn yn cael eu rhannu ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac arweinwyr tybaco'r byrddau iechyd i'w hystyried wrth ddarparu HMQ a chymorth rhoi'r gorau i smygu ar draws byrddau iechyd, yn enwedig mewn perthynas â grwpiau cymorth, llinellau cymorth a swyddogaethau sgwrsio yn Gymraeg. Mae'r sylw ar gymhellion wedi'i ystyried o dan gwestiynau 6, 7 ac 8.

Cwestiwn 12

Rydyn ni wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, mae croeso i chi ddefnyddio'r lle hwn i'w nodi.

Crynodeb o'r materion a godwyd mewn ymateb i gwestiwn 12

Yn ystod y digwyddiad ymgysylltu, gofynnwyd i'r cynrychiolwyr beth fyddai eu 'neges i'r Gweinidog' ynghylch yr uchelgais ddi-fwg. Darparwyd negeseuon yn ymwneud â'r meysydd canlynol:

- Yr angen am adnoddau wedi'u neilltuo i gefnogi'r gwaith o weithredu'r strategaeth.

- Mae angen dull gweithredu cydgysylltiedig ar draws pob rhan o Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn ymestyn i ddod â negeseuon sy'n gysylltiedig ag iechyd ynghyd, ac ar draws adrannau.
- Pwysigrwydd gwrandao ar y rhai o grwpiau blaenoriaeth a darparu cymorth nad yw'n stigmatiddio.
- Egluro'r sefyllfa o ran e-sigaréts.
- Hyfforddiant gorfodol i holl staff y GIG sy'n canolbwyntio ar ymyriadau smygu a rhoi'r gorau i smygu.

Cafwyd 89 o ymatebion yn ystod yr ymgynghoriad i'r cwestiwn hwn, ac ailadroddodd traean ohonynt eu gwrthwynebiad i'r strategaeth naill ai am fod y strategaeth yn bwriadu cyfyngu ar ryddid pobl i ddewis neu am ei bod yn cael ei hystyried yn wastraff arian cyhoeddus. Ailadroddodd tua un o bob deg o'r ymatebion a gafwyd eu cefnogaeth i'r strategaeth, a dywedodd sawl ymatebydd eu bod am gymryd rhan weithredol yn y gwaith o gefnogi ei gweithrediad. Dywedodd un arall fod y dogfennau ymgynghori eu hunain wedi'u hanelu'n fwy at weithwyr proffesiynol ac y byddent wedi elwa ar ddogfen symlach wedi'i hanelu at aelodau'r cyhoedd. Derbyniwyd sylwadau o dan y themâu canlynol hefyd:

Cyfathrebu – Rhoddodd sawl ymatebydd syniadau ar gyfer sut y gellid hyrwyddo a chyfathrebu'r strategaeth yn effeithiol. Mewn perthynas ag ymgyrchoedd yn y cyfryngau, roedd hyn yn cynnwys hyrwyddo rhoi'r gorau i smygu drwy sefydlu corff annibynnol i gyflwyno un ymgyrch dorfol yn y cyfryngau a chanolbwyntio ar fanteision rhoi'r gorau i smygu o ran iechyd, arian a bod yn dderbyniol yn gymdeithasol. Galwodd un arall am i ymgyrchoedd fabwysiadu dull wedi'i dargedu (gan nad yw dull gwybodaeth iechyd cyhoeddus cyffredinol yn gweithio bob amser) i sicrhau bod sianeli cyfathrebu priodol yn cael eu defnyddio i gyrraedd grwpiau blaenoriaeth megis plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed a gofalwyr maeth. Rhaid i'r deunyddiau fod yn addas ar gyfer pob cynulleidfa (gan gynnwys plant a phobl ifanc) a defnyddio Cymraeg clir, gan osgoi jargon. Awgrymodd un ymatebydd y gallai fideos helpu plant a phobl ifanc i ddeall y negeseuon.

Llywodraethu, cerrig milltir a chynnydd - Dywedodd rhai ymatebwyr nad oes unrhyw fanylion am yr hyn a fydd yn digwydd pan ddaw cynllun cyflawni 2022-24 i ben a bod angen mwy o fanylion am y ffactorau a fydd yn pennu beth fydd yn cael ei gynnwys yn y cynllun cyflawni nesaf ar gyfer 2024-25. Roedd rhai ymatebwyr yn cwestiynu a yw'r prosesau monitro ac adrodd arfaethedig yn ddigon cadarn i benderfynu a fydd y cynllun cyflawni'n cael effaith ac roedd rhai am weld y cynllun cyflawni'n nodi cerrig milltir cliriach a fyddai'n caniatáu i Lywodraeth Cymru fesur a yw'r cynnydd a wneir dros amser yn dderbyniol. Awgrymodd un ymateb y dylid ychwanegu adolygiad interim i asesu cynnydd ar y pwynt canol. Gofynnodd un arall am i adroddiadau cynnydd a oedd ar gael i'r Bwrdd Strategol Rheoli Tybaco gael eu cyhoeddi ac y dylai'r cynllun gweithredu nodi pa mor aml y dylid paratoi a chyhoeddi'r adroddiadau hyn. Gwnaed sylwadau hefyd ar gyfansoddiad y Bwrdd Strategol Rheoli Tybaco, yn enwedig y ffaith nad yw'r proffesiwn nyrsio'n cael ei gynrychioli, a dylai Llywodraeth Cymru ystyried y ffordd orau o ymgysylltu â'r proffesiwn nyrsio ar lefel strategol ynghylch tybaco, o ystyried ei absenoldeb o'r Bwrdd hwn.

Sylwadau ychwanegol - Gwnaed sylw mewn ymateb i'r cwestiwn hwn ar y ffaith bod cyffredinrwydd smygu ymhlith pobl â salwch meddwl difrifol megis sgitsoffrenia ac

anhwylder deubegynol yn parhau'n uchel. Ystyriwyd y mater hwn yn ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiynau 6, 7 ac 8. Awgrymodd un arall y dylai Llywodraeth Cymru osod targed dilynol o 5% neu lai o ran cyffredinrwydd smygu yng Nghymru ar gyfer pob grŵp economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys y cwintel mwyaf difreintiedig. Mae hyn wedi'i gynnwys a'i ystyried yn y sylwadau o dan gwestiwn 3. O dan faes gweithredu blaenoriaeth 5, awgrymwyd y dylid gweithio gyda CThEM i ddiweddarau'r strategaeth gwrth-smyglo.

Datganiad o fuddiant breintiedig - Tynnodd un ymatebydd sylw at y ffaith nad oedd yr ymarfer ymgynghori'n gofyn am i ymatebion ddatgan unrhyw fuddiannau breintiedig a bod hyn yn groes i Gonfensiwn Fframwaith Sefydliad Iechyd y Byd ar Reoli Tybaco sy'n datgan bod gan ei lofnodwyr rwymedigaeth i ddiogelu polisi iechyd y cyhoedd rhag buddiannau breintiedig y diwydiant tybaco. Felly, argymhellwyd y dylid cynnal adolygiad i nodi ymatebion sy'n cynnwys gwrthdaro o'r fath.

Ymateb Llywodraeth Cymru a diwygiadau a wnaed i'r strategaeth a'r cynllun cyflawni

Mae cyfathrebu â'r cyhoedd yn gyffredinol a hefyd â chynulleidfaoedd a grwpiau penodol ar smygu a rhoi'r gorau i smygu yn rhan bwysig iawn o'r strategaeth a'r cynllun cyflawni. Wrth gyflawni gwaith cyfathrebu diweddar (cyflwyno'r ddeddfwriaeth ardaloedd di-fwg ar 1 Mawrth 2021 ac, yn fwy diweddar, wrth annog pobl i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad), ein nod oedd sicrhau bod y negeseuon ar smygu yn hawdd eu deall ac yn hygyrch. Gwnaethom gynhyrchu fideo o blant ysgol yn siarad am smygu a hefyd o unigolyn yn siarad am ei brofiad o roi'r gorau iddi. Wrth gyflawni'r strategaeth a'r cynllun cyflawni, byddwn yn gweithio gyda Grŵp Gweithredu'r Cynllun Cyflawni Rheoli Tybaco i ddeall y ffordd orau o gyfathrebu yn y dyfodol, boed hynny gyda'r rhai o grwpiau blaenoriaeth megis plant a phobl ifanc neu'n fwy cyffredinol. Bydd hyn yn cynnwys dulliau cyfathrebu a hefyd iaith (er enghraifft, ieithoedd cyffredin y rhai mewn grwpiau blaenoriaeth penodol). Rydym yn ceisio integreiddio negeseuon smygu â negeseuon gwella iechyd eraill hefyd, fel y gwnaed yn ddiweddar gyda'r Ymgynghoriad Helpwch Ni i'ch Helpu Chi. Byddwn yn edrych hefyd ar HMQ i sicrhau bod y dulliau cyfathrebu a ddefnyddir i hyrwyddo'r gwasanaeth hwnnw yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau bosibl. Os oes cyfleoedd hefyd i gysylltu â negeseuon smygu ledled y DU, byddem yn croesawu'r cyfle i edrych ar y posibiladau ar gyfer hyn.

O ran llywodraethu'r strategaeth a'r cynllun cyflawni, ystyrir aelodaeth y Bwrdd Strategol Rheoli Tybaco ar sail ad hoc, ond bydd y dogfennau wedi'u diwygio i sicrhau ei bod yn glir bod aelodaeth o'r Bwrdd a Grŵp Gweithredu'r Cynllun Cyflawni Rheoli Tybaco'n cael ei ystyried unwaith y flwyddyn o leiaf. Er bod cynrychiolydd o'r gwasanaethau mamolaeth ar Grŵp Gweithredu'r Cynllun Cyflawni Rheoli Tybaco, bydd y Grŵp hwn a'r Bwrdd yn ystyried sut y caiff y proffesiwn nyrsio ei gynrychioli. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn a bydd yn derbyn adroddiadau cynnydd gan Grŵp Gweithredu'r Cynllun Cyflawni Rheoli Tybaco. Bydd trefniadau'n cael eu rhoi ar waith i gyhoeddi adroddiadau cynnydd ac adroddiad blynyddol.

Fel y nodwyd mewn perthynas â chwestiwn 9, mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth o dan ofynion Erthygl 5.3 o Gonfensiwn Fframwaith Sefydliad Iechyd y Byd ar Reoli Tybaco i ddiogelu polisi iechyd y cyhoedd rhag buddiannau breintiedig y

diwydiant tybaco ac rydym wedi cryfhau'r geiriad ynglŷn â hyn yn y strategaeth a'r cynllun cyflawni.

Mae'r strategaeth a'r cynllun cyflawni wedi'u diwygio:

- I dynnu sylw at bwysigrwydd ymgyrchoedd a dulliau cyfathrebu sy'n ymgysylltu â chynulleidfaoedd yn y ffordd briodol (gan gynnwys iaith).
- I'w gwneud yn glir bod aelodaeth y Bwrdd Strategol Rheoli Tybaco a'r Grŵp Gweithredu Cynllun Cyflawni Rheoli Tybaco yn cael ei ystyried yn flynyddol.
- Nodi'n glir y bydd y Grŵp Gweithredu Cynllun Cyflawni Rheoli Tybaco a'r Bwrdd Strategol Rheoli Tybaco yn dryloyw ynghylch eu cynnydd o ran cyflawni'r camau gweithredu.
- I sicrhau bod y rhwymedigaethau i Erthygl 5.3 yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yn y dogfennau (fel y nodir hefyd o dan gwestiwn 9).